

CYFARFOD GORFFENNAF 3/7/17.

COFNODION MEHEFIN 5/6/17.

Presennol:- Mrs A E Parry, Mrs L Gillham(Cadeirydd),Mr P Jones,Mr A Hughes,Mr J Griffith(Ynys Mon).Y Cadeirydd yn croesawu dau aelod newydd o ward Llanfaethlu, Mrs Ellena Thomas-Jones a Mr Nick Grenfell-Marten.

Ymddiheuriadau:-Mr R Owen- gobeithio ei fod yn gwella ac adref yn fuan.

Mrs E A Parry yn cadarnhau'r Cofnodion yn gywir a Mr P Jones yn eilio.

Materion yn Codi :- Mr J Griffith yn ddiolchgar iawn am y geiriau caredig yn llongyfarch y tri Cynghorydd sir yn dilyn eu llwyddiant yn yr Etholiad Sirol. Y Clarc yn cyflwyno y gwaith papur fydd yn cael ei gyflwyno yn yr Arolwg Fewnol(6/6/17) ar Arolwg Allanol(20/6/17) sef Taflen Ariannol 16-17,y datganiad or Barclays yn cydfyn ar daflen ac hefyd y ffurfleni ar gyfer yr Arolwg Allanol.Pawb yn derbyn fod y cwbl yn gywir ac yn ddiolchgar ir Clarc am ei ofal gofalus o arian y Cyngor.Y Cadeirydd yn sylwi fod swydd y Clarc yn golygu tipyn mwy o waith ac amser ac ella fod angen codi cyflog y Clarc.Pawb yn cytuno ac ar ol dau gynnig setlwyd yn y canol ar £2,250 (Diolch yn fawr).

GOHEBIAETH.- Derbynwyd yr Ohebiaeth, pasio trydan 3phase i'r ysgol,angen ateb y Pension Regulator.Ymateb da i gyfarfod Horizon yn y neuadd , llythyr yn diolch am yr arian o Glwb y Pensiynwyr.Mrs Gillham yn fodlon cario ymlaen i ein cynrychioli ar Lywodraethwyr yr ysgol(hen a newydd) ac wedi gwario llawer o amser hefo'r swydd-Diolch.Ateb yn ol i Mr Gareth Jones (Adran Addysg) i gadarnhau hyn.Y syniad o gael "flag pole" yn cael derbyniad da- mwy o fanylion! Mrs Ellena Thomas-Jones yn awyddus i fynd i'r cyfarfod Cynefino a Mr N Grenfell-Marten am geisio mynd i'r cyfarfod Cyswllt ar y 13/6/17.Rhif ffon i gwyno am swm o Gottwood yn y boc

Unryw fater Arall- Cwyn am faw cwn yn y cae Chwarae-angen mwy o arwyddion ar Cynghorydd J Griffith am geisio gwneud trefniadau i gynnwys Llanfaethlu dan ofalaeth Kingdome, sef swyddogion yn galw yma yn achlysurol ac hefo'r pwerau i roi dirwy hyd at £75 i berchnogion y cwn sydd yn gwneud golwg-pawb yn cytuno.